Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y Du ar Blaladdwyr 2025: Gweithio ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy

Dogfen gryno i randdeiliaid Cymru



# Cyflwyniad a chwmpas

Mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol y Du ar Blaladdwyr 2025: Gweithio ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy ("y Cynllun Gweithredu") yn nodi'r strategaeth ar gyfer rheoli'r defnydd o blaladdwyr a lleihau risg. Ei nod yw hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o blaladdwyr er mwyn lleihau risgiau ac effeithiau plaladdwyr i iechyd pobl a'r amgylchedd, gan sicrhau y gellir rheoli plâu ac ymwrthedd i blaladdwyr yn effeithiol. Mae hyn yn unol â Pholisi Gweinidogion Cymru ar Adnoddau Naturiol.

Yn fyd-eang, mae'r defnydd o blaladdwyr amaethyddol wedi cynyddu **91%** ers 1990, gan gyrraedd **3,441 cilodunnell metrig (kt)** yn 2020. Fodd bynnag, yn y DU, mae cyfanswm pwysau y sylweddau gweithredol a ddefnyddir gan ffermwyr a thyfwyr wedi gostwng bron i **60%** rhwng 1990 a 2020. Er gwaethaf amrywiadau oherwydd ffactorau fel amodau tywydd a newidiadau mewn cnydau, mae'r DU yn cynnal un o'r cyfraddau isaf yn Ewrop ar gyfer defnyddio plaladdwyr. Tua **1%** o'r defnydd o blaladdwyr amaethyddol y DU y gellir ei phriodoli i Gymru, felly mae ein ffocws yng Nghymru yr un mor berthnasol ar draws y sectorau amaethyddiaeth, amwynderau ac amatur.



## Dyma grynodeb o bwyntiau allweddol y Cynllun Gweithredu

- **Cwmpas a Diben:**
  Mae'r Cynllun Gweithredu yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan. Mae'n ymwneud yn benodol â Chynhyrchion Diogelu Planhigion; plaladdwyr yw'r rhain a ddefnyddir i ddiogelu planhigion a chynhyrchion planhigion rhag plâu, clefydau a chwyn. Nid yw'n cynnwys 'bioladdwyr' fel cadwolion pren neu ddiheintyddion, na meddyginiaethau milfeddygol fel dip defaid, gan fod y rhain yn dod o dan bolisïau a gofynion rheoleiddio ar wahân.
- **Dull:**
  Mae'n nodi tri amcan i gyflawni ei nod lefel uchel. Mae'r rhain yn cynnwys annog pobl i fabwysiadu arferion rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM), gosod targedau a mesurau clir i fonitro'r defnydd o blaladdwyr a chryfhau cydymffurfedd er mwyn sicrhau diogelwch a chanlyniadau amgylcheddol gwell.
- **Cyflawni:**
  Mae cyfres o gamau gweithredu yn sail i bob un o'r tri amcan. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Gweithredu ond gall ddewis ategu'r rhain gyda mesurau ychwanegol i sbarduno uchelgais uwch nag erioed yng Nghymru.
- **Targed:**
  Mae'n cyflwyno'r targed lleihau domestig cyntaf ar gyfer plaladdwyr yn y DU. Yn hanfodol, mae hyn yn cael ei wneud ar sail pwysau amgylcheddol posibl yn hytrach nac oherwydd pwysau'r plaladdwyr a ddefnyddir neu faint ohono a daenir ar y tir. Wrth osod targed lleihau plaladdwyr, rydym am gael targed yn seiliedig ar ganlyniadau mesuradwy, sy'n ymestyn, yn fesuradwy, yn amser-gyfyngedig ac sy'n gofyn am weithredu parhaus gan yr holl bartneriaid cyflawni. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cydnabod y bydd y targed domestig yn cyfrannu at Darged 7 <u>Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal</u> y cytunwyd arno yn COP15.
- **Annog Cynaliadwyedd:**
  Mae'r Cynllun Gweithredu yn cydnabod bod bioamrywiaeth a niferoedd digonol o bryfed yn hanfodol i'n ffyniant economaidd ac y gall IPM gael manteision sylweddol o ran lleihau pwysau a gwella'r amgylchedd.
- **Gwella'r System Reoleiddio:**
  Mae'n cydnabod pwysigrwydd system reoleiddio effeithiol ac yn ymrwymo'r llywodraeth i ystyried ffyrdd y gellir gwella'r system reoleiddio.
- **Mesurau Presennol:**
  Mae'n ymrwymo'r llywodraeth i ddiweddaru canllawiau arferion gorau er mwyn cefnogi'n well y rhai sy'n gweithio gyda phlaladdwyr.
- **Mesur cynnydd:**
  Ochr yn ochr â'r prif darged o leihau plaladdwyr mewn cyd-destun domestig, bydd y llywodraeth yn parhau i fonitro ac adrodd yn erbyn fframwaith ehangach o ddangosyddion sy'n seiliedig ar weithredu a chanlyniadau.
- **Dyfodol:**
  Rydym yn bwriadu ychwanegu at y Cynllun Gweithredu gan ddarparu rhagor o fanylion a fydd yn amlinellu ein cyd-flaenoriaethau wrth symud ymlaen ac yn darparu fframwaith mwy cynhwysfawr ar gyfer cyflawni'r weledigaeth ar gyfer plaladdwyr i'r dyfodol.

# Amcanion

Mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys tri amcan a fydd yn helpu i gyflawni'r nod cyffredinol o leihau risgiau ac effeithiau plaladdwyr ar iechyd pobl a'r amgylchedd gan reoli plâu ynghyd ag ymwrthedd i blaladdwyr. Mae pob amcan yn cynnwys nifer o gamau gweithredu sy'n darparu dull cynhwysfawr o gyflawni'r nod. Dyma drosolwg o bob amcan:

1. **Annog pobl i fabwysiadu arferion rheolaeth integredig ar blâu (IPM):** Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar gynyddu nifer y defnyddwyr plaladdwyr sy'n mabwysiadu arferion IPM, gan gydnabod pwysigrwydd dulliau arloesol a dewisiadau amgen i gefnogi mabwysiadu arferion IPM.
2. **Gosod targedau a mesurau clir i fonitro'r defnydd o blaladdwyr:** Er mwyn dangos bod y camau a gymerwn ar y cyd yn lleihau'r effaith bosibl sy'n gysylltiedig â defnyddio plaladdwyr, mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cynnwys y targed domestig cyntaf ar gyfer lleihau plaladdwyr. Bydd cynnydd tuag at ein targed domestig a'r camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu yn cael eu holrhain fel rhan o fframwaith dangosyddion ehangach.
3. **Cryfhau cydymffurfedd er mwyn sicrhau diogelwch a chanlyniadau amgylcheddol gwell:** Mae'r amcan hwn yn canolbwyntio ar sut y byddwn yn cefnogi arferion gorau i ddiogelu iechyd pobl a'r amgylchedd wrth ddefnyddio plaladdwyr. Mae'r Codau Ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion yn ffynhonnell bwysig o gyngor ymarferol i'r rhai sy'n gweithio yn y sectorau amaethyddiaeth, amwynderau, garddwriaeth a choedwigaeth ar sut i ddefnyddio plaladdwyr yn ddiogel a, thrwy wneud hynny, fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â defnyddio plaladdwyr.

Yn gyffredinol, mae'r amcanion hyn yn mynd i'r afael ag agweddau allweddol ar reoli plâu yn gynaliadwy, gan gynnwys addysg a hyfforddiant, cymell opsiynau risg is, a sicrhau cydymffurfedd reoleiddiol.



# **Amcan 1:** Annog pobl i fabwysiadu arferion rheolaeth integredig ar blâu (IPM)

Mae IPM yn ddull cyfannol sy'n ystyried yn ofalus yr holl ddulliau o ddiogelu planhigion sydd ar gael ac mae'n cadw'r defnydd o blaladdwyr cemegol confensiynol a mathau eraill o ymyrraeth i lefelau sydd wedi'u cyfiawnhau yn ecolegol ac yn amgylcheddol ac sy'n lleihau'r risgiau i iechyd dynol a'r amgylchedd.

## Camau i annog pobl i fabwysiadu arferion IPM

**Cam Gweithredu 1**

Codi ymwybyddiaeth o strategaethau IPM a gwybodaeth amdanynt drwy hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i wneud penderfyniadau ynghyd ag offerynnau cynllunio, canllawiau ymarferol a mynediad at ddysgu a thystiolaeth o waith ymchwil a datblygu.

**Cam Gweithredu 2**

Cydweithio â gwasanaethau cynghori ffermwyr i wella'r cyngor IPM cyfredol a gynigir, er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi cynnydd yn nifer y bobl sy'n mabwysiadu arferion IPM.

**Cam Gweithredu 3**

Cydweithio â darparwyr hyfforddiant i adolygu'r cynnig IPM gan nodi unrhyw fylchau a meysydd i'w gwella i gefnogi'r nifer sy'n mabwysiadu arferion IPM.

**Cam Gweithredu 4**

Archwilio cyfleoedd ar gyfer cyllid hwyluso IPM ar gyfer ffermwyr, tyfwyr a rhwydweithiau a arweinir gan goedwigwyr.

**Cam Gweithredu 5**

Casglu rhagor o ddata ar y defnydd o arferion IPM a phlaladdwyr yn y sectorau amatur ac amwynderau er mwyn deall yn well y defnydd ohonynt, sut mae'r rhain yn cyfrannu at lwyth plaladdwyr yn gyffredinol ac arferion IPM posibl.

**Cam Gweithredu 6**

Adolygu'r rhwystrau rheoleiddiol i arloesi, yn enwedig o ran technolegau taenu manwl: archwilio manteision ac anfanteision posibl defnyddio dronau i daenu plaladdwyr ac ystyried a oes angen diwygio rheolau a chanllawiau.

**Cam Gweithredu 7**

Datblygu galluogrwydd mewnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sganio'r gorwel er mwyn nodi, deall a lliniaru bylchau wrth reoli plâu.

**Cam Gweithredu 8**

Parhau i ddarparu cymorth ychwanegol ar gyfer taenu bioblaladdwyr.

**Cam Gweithredu 9**

Ystyried sut y gallwn wneud gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer bioblaladdwyr Prydain er mwyn lleihau beichiau heb gyfaddawdu ar safonau iechyd yr amgylchedd ac iechyd dynol.

**Cam Gweithredu 10**

Parhau i gyfeirio cyllid er mwyn hwyluso gwaith ymchwil a datblygu cymhwysol ar feysydd blaenoriaeth lle mae dewisiadau amgen i blaladdwyr cemegol confensiynol yn brin, yn enwedig yng nghyd-destun cnydau mawr.



# **Amcan 2:** Gosod targedau a mesurau clir i fonitro'r defnydd o blaladdwyr

Mae ein targed yn ystyried priodweddau cemegol plaladdwyr yn ogystal â'r lefelau a ddefnyddir. Mae canolbwyntio yn unig ar faint o blaladdwyr a daenir (mewn pwysau) a'r ardal y cânt eu gwasgaru arni yn anwybyddu amrywiad ym mhriodweddau cemegol y sylweddau gweithredol a daenir a'u heffeithiau posibl ar yr amgylchedd. Mae'n bwysig nodi y byddwn yn adolygu'r targed hwn ac yn monitro cynnydd. Law yn llaw â mesur cyflawniad yn erbyn y targed, byddwn hefyd yn mesur cynnydd yn erbyn nifer o ddangosyddion sy'n seiliedig ar gamau gweithredu, er enghraifft nifer y cynlluniau IPM a gwblhawyd, argaeledd bioblaladdwyr, a nifer y defnyddwyr Cynhyrchion Diogelu Planhigion proffesiynol sydd wedi cwblhau hyfforddiant.

## Camau i fonitro'r defnydd o blaladdwyr

### Cam Gweithredu 11

Sefydliadau cyswllt sy'n gyfrifol am gasglu'r data sylfaenol y tu ôl i'r dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu blaenorol er mwyn pennu unrhyw botensial i ddiweddaru, gwella neu ddisodli'r dangosyddion presennol.

### Cam Gweithredu 12

Pob un o'r pedair llywodraeth i gynnal trafodaethau â phartneriaid mewnol ac allanol, er enghraifft yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Rheoleiddwyr Amgylcheddol y DU, er mwyn cytuno ar fframwaith o ddangosyddion, a datblygu cynllun ar gyfer cynhyrchu adroddiadau monitro (ar bwy fydd yn rhoi mewnbwn, sut y byddant yn cael eu hadolygu ac yn rhoi sicrwydd ansawdd).

### Cam Gweithredu 13

Asesu cynnydd yn erbyn y targedau, gan adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd i asesu a ddylid addasu'r lefel darged ofynnol er mwyn ymestun yr uchelgais ymhellach.

### Cam Gweithredu 14

Cyhoeddi adroddiadau bob dwy flynedd ar ganlyniadau'r gwaith o fonitro'r dangosyddion, gan gynnwys cynnydd yn erbyn targed y PLI.



# **Amcan 3:** Cryfhau cydymffurfedd er mwyn sicrhau diogelwch a gwell canlyniadau amgylcheddol

Rydym am gefnogi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â gwerthu a defnyddio plaladdwyr i sicrhau lefelau da o gydymffurfedd ar draws pob sector. Byddwn yn diweddaru'r Codau Ymarfer i ddefnyddwyr a chyflenwyr i adlewyrchu'r safonau rheoleiddio cyfredol a sefydlwyd gan Gyfarwyddeb 2009/128/EC ar ddefnyddio plaladdwyr yn gynaliadwy (SUD) a chefnogi'n well y rhai sy'n gweithio gyda phlaladdwyr.

### Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol

Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Cynhyrchion Diogelu Planhigion) 2020 yn creu rhwymedigaeth ar fusnesau penodol (e.e.: gweithgynhyrchwyr, dosbarthwyr, cyflenwyr plaladdwyr) ac unrhyw ddefnyddiwr plaladdwyr proffesiynol i gofrestru gyda'u Hawdurdod Cymwys perthnasol. Yng Nghymru, mae Defra yn rheoli'r cofrestriadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r gofrestr yn galluogi rheoleiddwyr i gyflwyno rhaglen o ymweliadau archwilio sy'n seiliedig ar risgiau (i'r rhai sydd eisoes wedi cofrestru ac i'r rhai sydd eto i gofrestru). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: **www.gov.wales/official-controls-plant-protection-products-regulation-2020-html**

## Camau i adeiladu a chryfhau cydymffurfedd

### Cam Gweithredu 15

Comisiynu prosiect tystiolaeth i adolygu lle gall data o ystod o ddangosyddion a metrigau lywio ymhellach ddull sy'n seiliedig ar risg o ran cydymffurfedd.

### Cam Gweithredu 16


Adolygu sut y gellid ystyried aelodaeth o gynlluniau diwydiant/sicrwydd fel rhan o broses asesu proffiliau risg defnyddwyr, er mwyn sicrhau bod archwiliadau'n cael eu targedu'n well.

### Cam Gweithredu 17

Sicrhau bod canllawiau ar ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion, yn benodol, y 'Codau ymarfer ar gyfer defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion' (a'r 'Cod ymarfer ar gyfer cyflenwyr plaladdwyr i amaethyddiaeth, garddwriaeth a choedwigaeth'), yn cael eu diweddaru fel eu bod yn gyfredol, yn parhau'n glir ac yn hawdd cael gafael arnynt, yn cefnogi cydymffurfedd ac yn ymgorffori IPM fel rhan allweddol o'n dull hirdymor o reoli plâu.

### Cam Gweithredu 18


Ymgysylltu â marchnadoedd ar-lein i drafod canfyddiadau ymchwil ynghylch gwerthiant ar-lein Cynhyrchion Diogelu Planhigion proffesiynol, a dulliau o gynyddu gwelededd y gofynion cyfreithiol o ran eu defnydd gan y cyhoedd.



# Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM) – Egwyddorion Allweddol ac astudiaeth achos

Nod Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM) yw lleihau dibyniaeth ar blaladdwyr cemegol trwy integreiddio amrywiaeth o strategaethau rheoli plâu sy'n effeithiol, yn ecogyfeillgar ac yn gynaliadwy yn yr hirdymor.

Mae IPM yn ddull cynhwysfawr o reoli chwyn a chlefydau sy'n pwysleisio arferion cynaliadwy ac ecogyfeillgar. Fel arfer, cyfeirir at chwyn, infertebratau, plâu a chlefydau fel 'plâu'. Mae hyn yn cynnwys pryfed, molysgiaid, nematodau, arachnidau, ffyngau, firysau, bacteria a phlanhigion. Dyma ddadansoddiad o'r hyn y mae IPM yn ei olygu yn ymarferol:




1. **Atal:** Canolbwyntio ar atal poblogaethau plâu rhag cronni trwy ddulliau meithrin fel cylchdroi cnydau, tyfu amrywogaethau sydd ag ymwrthedd i blâu, a hylendid. Mae hyn yn cynnwys glanhau peiriannau ac offer yn rheolaidd, gan gael gwared ar weddillion cnydau heintiedig. Sefydlu cynefinoedd fel gwrychoedd ac ardaloedd bywyd gwyllt, er mwyn darparu safleoedd bwydo, cysgodi a nythu i annog ysglyfaethwyr naturiol.
2. **Monitro:** Cynnwys archwilio rheolaidd, adnabod plâu, ac asesu poblogaethau plâu i bennu a oes angen unrhyw fesurau rheoli. Mae monitro effeithiol yn sicrhau mai dim ond pan fo angen y defnyddir plaladdwyr a'u bod yn cael eu taenu'n gywir.

3. **Trothwyon:** Dibynnu ar drothwyon gwyddonol cadarn i benderfynu pryd mae poblogaethau plâu neu lefelau difrod uwchlaw terfynau derbyniol, gan sbarduno'r angen am fesurau rheoli. Mae'r pwyslais ar reolaeth yn hytrach na dileu, oherwydd gellir goddef rhai lefelau o blâu a gallant fod yn fuddiol i ecosystemau.

4. **Ymyrraeth a Rheolaeth:** Dewis dulliau rheoli yn seiliedig ar effeithiolrwydd a risg, gan flaenoriaethu dulliau cynaliadwy ffisegol, biolegol a dulliau nad ydynt yn gemegol yn bennaf. Mae hyn yn cynnwys chwynnu â llaw, chwynnu mecanyddol, rhwystrau ffisegol fel netin, cyfryngau rheoli biolegol, a bioblaladdwyr. Defnyddir plaladdwyr cemegol fel dewis olaf ac ar y lefelau angenrheidiol i leihau'r effeithiau negyddol i rywogaethau nad ydynt yn cael eu targedu.

5. **Rheoli Ymwrthedd:** Mae ymwrthedd i blaladdwyr yn digwydd pan fydd y pla yn datblygu goddefedd i blaladdwr a ddefnyddir yn aml ac o ganlyniad nid yw'n cael ei ladd. Mae amrywiaeth o strategaethau y gellir eu gweithredu i reoli ymwrthedd pan fydd taenu plaladdwyr yn angenrheidiol dro ar ôl tro. Mae hyn yn cynnwys cylchdroi plaladdwyr gyda gwahanol ddulliau gweithredu, defnyddio dull rheoli ffisegol neu ddefnyddio bioblaladdwr.

6. **Adolygu a Gwerthuso:** Adolygu'n rheolaidd effeithiolrwydd mesurau rheoli plâu i asesu ac addasu strategaethau yn ôl yr angen. Gall hyn olygu datblygu ac adolygu'n flynyddol gynlluniau IPM wedi'u teilwra i sefyllfaoedd penodol.



## Astudiaeth achos

**Fferm âr 400-ha, a reolir gan J Llewellin & Co**

Mae teulu Llewellin wedi ffermio Trewarren ers 1955. Mae cyflwyno IPM wedi caniatáu i'r teulu dyfu cnydau'n gynhyrchiol gydag elw gan wella iechyd y pridd a'r amgylchedd naturiol – gan gynnal cynnyrch y cnydau, neu yn achos rêp hadau olew, cynyddu'r cynnyrch.

Defnyddir tri chwarter Fferm Trewarren ar gyfer cynhyrchu cnydau âr, gan gynnwys gwenith, rêp hadau olew y gaeaf a ffa. Mae'r arferion IPM a gyflwynwyd ar y fferm yn cynnwys cnydau gorchudd, llai o drin y tir a chylchdroi cnydau i gefnogi pryfed buddiol, a thorri cylchoedd plâu, chwyn a chlefydau. Defnyddir technoleg monitro plâu a GPS i sicrhau bod mewnbynnau cemegol yn cael eu targedu ac yn gymesur, gyda phryfleiddiaid yn cael eu defnyddio dim ond pan fydd poblogaethau plâu yn uwch na'r trothwyon.

Mae'r fferm wedi gweld gwelliant sylweddol yn iechyd y pridd ers i dechnegau IPM gael eu cyflwyno, sydd yn ei dro wedi cael effaith ddramatig ar boblogaethau o adar a phryfed buddiol. Datgelodd cyfrif diweddar o fuchod coch cwta bum rhywogaeth wahanol, a datgelodd cyfrif o loÿnnod byw 12 math gwahanol. Oherwydd bod y pridd yn cael ei aflonyddu cyn lleied â phosibl, mae poblogaethau o fwydod sy'n tyllu'n ddwfn wedi cynyddu, ac mae priodweddau hidlo dŵr y pridd wedi gwella. Mae'r teulu wedi plannu gwrychoedd a phyllau hefyd at ddibenion dyfrhau ac er mwyn darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt a pheillwyr.

Mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn sail i lawer o arferion IPM y fferm. Mae technoleg GPS wedi caniatáu i'r fferm leihau mewnbynnau a chynyddu effeithlonrwydd trwy ddiffodd chwistrellwyr yn awtomatig, ac mae mapio caeau yn ôl y math o bridd a lefelau maeth y pridd yn golygu y gellir hau cnydau gan ddefnyddio cyfraddau amrywiol o hadau er mwyn sefydlu'r planhigion yn gyfartal. Caiff sgôr ymwrthedd amrywogaethau o hadau ei ystyried yn ofalus, er mwyn lleihau pa mor agored ydynt i glefydau.

## Targed

Mae'r Cynllun Gweithredu yn cyflwyno'r targed lleihau domestig cyntaf ar gyfer plaladdwyr yn y DU. Mae'r targed yn seiliedig ar y Dangosydd Llwyth Plaladdwyr (PLI), sy'n ystyried priodweddau cemegol plaladdwyr yn ogystal â'r lefel a ddefnyddir. Defnyddir ugain o ddangosyddion amgylcheddol i bennu'r PLI cyffredinol. Ar hyn o bryd mae'r PLI yn berthnasol i'r sector âr amaethyddol yn unig, sydd tua 90% o'r defnydd cyffredinol o blaladdwyr yn y sector amaethyddiaeth a garddwriaeth yn y DU. Y targed yw **lleihau pob un o'r 20 cydran PLI o leiaf 10% erbyn 2030**, gan gymryd ffigurau ar gyfer 2018 fel llinell sylfaen.

Bydd y targed domestig yn cyfrannu hefyd at Darged 7 **Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal** y cytunwyd arno yn COP15, i leihau risgiau cyffredinol plaladdwyr a chemegion peryglus iawn o hanner o leiaf erbyn 2030.

**Mesur Cynnydd**

Ochr yn ochr â'r prif darged sy'n seiliedig ar y Dangosydd Llwyth Plaladdwyr, bydd fframwaith ehangach o ddangosyddion yn cael ei fonitro. Gallai hyn gynnwys:

- Nifer y cynlluniau Rheolaeth Integredig ar Blâu (IPM) wedi'u cwblhau.
- Argaeledd Bioblaladdwyr.
- Nifer y defnyddwyr plaladdwyr proffesiynol sydd wedi cwblhau cynlluniau hyfforddis.

Rydym yn cynnig parhau i fonitro'r dangosyddion a ddefnyddiwyd yn fframwaith dangosyddion blaenorol 2013 i ddangos sut rydym yn symud ymlaen yn erbyn amcanion o fewn y SUD, gan ddiweddaru ac ehangu arnynt i ddangos cynnydd yn glir.

# Dolenni defnyddiol

| | |
|---|---|
| Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr yng Nghymru | www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-pryfed-peillio-adolygiad-a-chamau-gweithredu-yn-y-dyfodol.pdf |
| Hwb rheolaeth integredig ar blâu AHDB | www.ahdb.org.uk/integrated-pest-management-ipm-hub |
| Plymio dwfn Bioamrywiaeth: argymhellion | www.llyw.cymru/plymio-dwfn-bioamrywiaeth-argymhellion |
| Cemegion a Phlaladdwyr – Fframwaith Cyffredin Dros Dro | www.gov.uk/government/publications/chemicals-and-pesticides-provisional-framework |
| Archwilio offer defnyddwyr plaladdwyr | www.llyw.cymru/archwilio-offer-defnyddwyr-plaladdwyr |
| Cyswllt Ffermio | www.businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy |
| Fframwaith Bioamrywiaeth byd-eang | www.cbd.int/gbf |
| Plaladdwyr HSE | www.hse.gov.uk/pesticides/index.htm |
| Cronfeydd data Plaladdwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch | www.hse.gov.uk/pesticides/databases/index.htm |
| Y Polisi adnoddau naturiol cenedlaethol | www.gov.wales/natural-resources-policy |
| Cynllun gweithredu adfer natur | www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-adfer-natur |
| Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Cynhyrchion Diogelu Planhigion) 2020 | www.llyw.cymru/rheoliadau-rheolaethau-swyddogol-cynhyrchion-diogelu-planhigion-2020 |
| Rheoleiddio Plaladdwyr ar ôl Brexit | Mae gwefan HSE yn darparu crynodeb o'r sefyllfa reoleiddio ar ôl ymadael â'r UE. www.hse.gov.uk/pesticides/brexit.htm#legislative Cyswllt |
| Pesticide usage surveys | www.pusstats.fera.co.uk/home |
| Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Ymgyrch Cyfeillgar i Wenyn | www.biodiversitywales.org.uk/Caru-Gwenyn |
| Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2017: | www.legislation.gov.uk/uksi/2017/407/contents/made |
| Tudalennau gwe Plaladdwyr Llywodraeth Cymru | www.llyw.cymru/plaladdwyr |
| Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru | Cynllun Ffermio Cynaliadwy \| LLYW. CYMRU |
| Cod Ymarfer ar gyfer Defnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Cymru a Lloegr) | www.llyw.cymru/plaladdwyr-cod-ymarfer www.hse.gov.uk/pesticides/using-pesticides/codes-of-practice/index.htm |

# Gwybodaeth Gefndirol

Adamson, Hannah, Carla Turner, Eleanor Cook, Henry E. Creissen, Andy Evans, Sarah Cook, Mark Ramsden, et al. 2020. Review of Evidence on Integrated Pest Management. Final Report, Defra.

Creissen, Henry, Philip Jones, Richard Tranter, Robbie Girling, Stephen Jess, Fiona Burnett, Michael Gaffney, Fiona Thorne, and Steven Kildea. 2021.

"Identifying the drivers and constraints to adoption of IPM among arable farmers in the UK and Ireland." Pest Management Science 4148-4158.

Simply Sustainable Integrated Pest Management

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywdraeth Cymru, WG52014, ISBN digidol 978-1-83715-550-7
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

